**RHIF COFRESTREDIG: 06838729 (Lloegr a Chymru)**

# CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU – POLISI AC YMCHWIL CYFYNGEDIG

## ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR A

## DATGANIADAU ARIANNOL HEB EU HARCHWILIO

## AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD

## 31 MAWRTH 2025

Bevan Buckland LLP
Llawr Daear  Cardigan House
Castle Court
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU – POLISI AC YMCHWIL CYFYNGEDIG**

## CYNNWYS Y DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD 31 MAWRTH 2025


| | Tudalen |
|---|---|
| **Gwybodaeth am y Cwmni** | 1 |
| **Adroddiad y Cyfarwyddwyr** | 2 |
| **Datganiad Incwm ac Enillion a Gadwyd** | 3 |
| **Mantolen** | 4 |
| **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** | 6 |
| **Adroddiad y Cyfrifwyr Siartredig** | 8 |
| **Cyfrif Elw a Cholled Manwl** | 9 |

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU – POLISI AC YMCHWIL CYFYNGEDIG**

**GWYBODAETH AM Y CWMNI AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD 31 MAWRTH 2025**

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDWYR:** | K Burgess<br>S L Kirkpatrick<br>A S Brunt<br>H A Barrett<br>S J S Barry<br>S Lee<br>A H Rowlands<br>S L Schofield<br>R Storr-Barber<br>G J Oakley |
| **YSGRIFENNYDD** | J E Shorrock |
| **SWYDDFA GOFRESTREDIG:** | 7-8 Park Place<br>Caerdydd<br>CF10 3DP |
| **RHIF COFRESTREDIG:** | 06838729 (Lloegr a Chymru) |
| **CYFRIFWYR:** | Bevan Buckland LLP<br>Ground Floor Cardigan House<br>Castle Court<br>Parc Menter Abertawe<br>Abertawe<br>SA7 9LA |

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU – POLISI AC YMCHWIL CYFYNGEDIG**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR
AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD 31 MAWRTH 2025**

Mae'r cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol y cwmni am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2025.

**CYFARWYDDWYR**
Mae'r cyfarwyddwyr a ddangosir isod wedi dal swydd yn ystod yr holl gyfnod o 1 Ebrill 2024 i ddyddiad yr adroddiad hwn.

K Burgess
S L Kirkpatrick
AS Brunt
HA Barrett
AH Rowlands

Mae newidiadau eraill yn y cyfarwyddwyr yn dal swydd fel sy'n dilyn:
RA Martyn-Johns – ymddiswyddodd 19 Tachwedd 2024
S J S Barry – penodwyd 11 Ebrill 2024
S Lee – penodwyd 11 Ebrill 2024
S L Schofield – penodwyd 11 Ebrill 2024
R Storr-Barber – penodwyd 11 Ebrill 2024
A J Vye – ymddiswyddodd 19 Tachwedd 2024
G J Oakley – penodwyd 19 Tachwedd 2024

Cafodd yr adroddiad hwn ei baratoi yn unol â darpariaethau Rhan 15 Deddf Cwmnïau 2006 yn ymwneud â chwmnïau bach.

**AR RAN Y BWRDD:**




H A Barrett – Cyfarwyddwr

Dyddiad: 20 Hydref 2025

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU – POLISI AC YMCHWIL CYFYNGEDIG**

**DATGANIAD INCWM AC ENILLION A GADWYD AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD 31 MAWRTH 2025**

| | 2025<br>£ | 2024<br>£ |
|---|---|---|
| **TROSIANT** | 86,762 | 56,153 |
| Treuliau gweinyddol | 54,860 | 52,756 |
| **ELW GWEITHREDU ac ELW CYN TRETHIANT** | 31,902 | 3,397 |
| Treth ar elw | - | - |
| **ELW AM Y FLWYDDYN ARIANNOL** | 31,902 | 3,397 |
| Enillion a gadwyd ar ddechrau'r flwyddyn | (1) | (1) |
| Cymorth Rhodd | (31,900) | (3,397) |
| **ENILLION A GADWYD AR DDIWEDD Y FLWYDDYN** | 1 | (1) |

Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

## MANTOLEN
## 31 MAWRTH 2025

| | Nodiadau | 2025 £ | 2024 £ |
|---|---|---|---|
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Dyledwyr | 4 | - | 3,001 |
| Arian yn y banc | | 64,951 | 19,932 |
| | | 64,951 | 22,933 |
| **CREDYDWYR** | | | |
| Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 5 | 64,949 | 22,933 |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | 2 | - |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | 2 | - |
| **CYFALAF A CHRONFEYDD WRTH GEFN** | | | |
| Cyfalaf cyfraniadau a alwyd i fyny | | 1 | 1 |
| Enillion a gadwyd | | 1 | (1) |
| **CRONFEYDD CYFRANDDALWYR** | | 2 | - |

Mae gan y cwmni hawl i eithriad rhag archwiliad dan Adran 477 Deddf Cwmnïau 2006 am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2025

Nid yw'r aelodau wedi ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni gael archwiliad o'i ddatganiadau ariannol am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2025 yn unol ag Adran 476 Deddf Cwmnïau 2026.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau am:

(a) sicrhau fod y cwmni yn cadw cofnodion cyfrifeg sy'n cydymffurfio ag Adrannau 386 a 387 Deddf Cwmnïau 2026 ac yn

(b) paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o gyflwr busnes y cwmni ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a'i elw neu golled ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 yn ymwneud â datganiadau ariannol, i'r graddau sydd yn weithredol i'r cwmni.

Cafodd y datganiadau ariannol yma eu paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n weithredol i gwmnïau a ddaw o fewn y system cwmnïau bach.

Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn



parhad...

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU – POLISI AC YMCHWIL CYFYNGEDIG (RHIF COFRESTREDIG: 06838729)**

**MANTOLEN – parhad**
**31 MAWRTH2025**

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwr a'u hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi ar 1 Medi 2025.




H A Barrett - Cyfarwyddwr

Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

## CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU – POLISI AC YMCHWIL CYFYNGEDIG

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD 31 MAWRTH 2025

### 1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru – Polisi ac Ymchwil Cyfyngedig yn gwmni preifat, cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru. Mae rhif cofrestru a chyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni ar gael ar y dudalen Gwybodaeth am y Cwmni.

### 2. POLISÏAU CYFRIFEG

**Sail paratoi'r datganiadau ariannol**
Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n weithredol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" yn cynnwys darpariaethau Adran 1A "Endidau Bach" a Deddf Cwmnïau 2006. Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi dan y confensiwn cost hanesyddol.

**Eithriad parti cysylltiedig**
Mae'r cwmni wedi manteisio ar eithriad, dan delerau Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n weithredol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon' i beidio datgelu trafodion parti cysylltiedig gydag is-gwmnïau sy'n eiddo llawn o fewn y grŵp.

**Trosiant**
Caiff incwm partneriaeth masnachol ei gyfrifo ar sail cronnus a chaiff ei gydnabod yng nghyfnod y bartneriaeth.

**Dyledwyr**
Caiff dyledwyr masnach a dyledwyr eraill eu cydnabod ar swm y setliad sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ddisgownt masnach a gynigir. Caiff blaendaliadau eu prisio ar y swm a flaendalwyd net unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

**Arian yn y banc ac mewn llaw**
Mae arian yn y banc ac arian mewn llaw yn cynnwys arian a buddsoddiadau tymor byr hylif iawn gyda chyfnod aeddfedu byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif ernes neu gyfrif tebyg.

**Credydwyr a darpariaethau**
Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod lle mae gan y cwmni rwymedigaeth bresennol fel canlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol fydd yn debygol o arwain at drosglwyddo cronfeydd i drydydd parti a gellir mesur y swm dyledus i setlo'r rhwymedigaeth neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod ar swm y setliad ar ôl caniatáu am unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

### 3. CYFLOGEION A CHYFARWYDDWYR

Nifer cyfartalog y cyflogeion yn ystod y flwyddyn oedd DIM (2024 - DIM).

### 4. DYLEDWYR: SYMIAU A DDAW'N DDYLEDUS O FEWN UN FLWYDDYN

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Dyledwyr masnach | - | 3,001 |

### 5. CREDYDWYR: SYMIAU A DDAW'N DDYLEDUS O FEWN UN FLWYDDYN

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Credydwyr masnach | 430 | 6,571 |
| Symiau dyledus i'r cwmni rhiant | 54,803 | 4,600 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | 1,716 | - |
| Credydwyr eraill | 8,000 | 11,762 |
| | 64,949 | 22,933 |



parhad ...

## 6. DATGELIADAU PARTI CYSYLLTIEDIG

Rhiant Cartrefi Cymunedol Cymru Polisi ac Ymchwil yw Cartrefi Cymunedol Cymru.

7-8 Park Place, Caerdydd, CF10 3DP

Rhif cwmni 1128527
Rhif elusen 02380564

**ADRODDIAD Y CYFRIFWYR STATUDOL I'R BWRDD CYFARWYDDWYR AR DDATGANIADAU ARIANNOL HEB EU HARCHWILIO CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU – POLISI AC YMCHWIL CYFYNGEDIG**

Er mwyn eich cynorthwyo i gyflawni eich dyletswyddau dan Ddeddf Cwmnïau 2006 rydym wedi paratoi datganiadau ariannol Cartrefi Cymunedol Cymru – Polisi ac Ymchwil Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2025 ar gyfer eich cymeradwyaeth. Maent yn cynnwys y Datganiad Incwm ac Enillion a Gadwyd, Mantolen a'r nodiadau cysylltiedig o gofnodion cyfrifeg y cwmni ac o'r wybodaeth a'r esboniadau yr ydych wedi eu rhoi i ni.

Fel cwmni sy'n aelod gweithredol o'r Sefydliad Cyfrifyddion Siartredig yn Lloegr a Chymru (ICAEW), rydym yn ddarostyngedig i'w ofynion moesegol a phroffesiynol eraill a gaiff eu manylu yn rheoliadau a chanllawiau ICAEW yn http://www.icaew.com/en/membership/regulations-standards-and-guidance.

Gwneir yr adroddiad hwn yn llwyr i Fwrdd Cyfarwyddwyr Cartrefi Cymunedol Cymru – Polisi ac Ymchwil Cyfyngedig, fel y corff, yn unol â'n telerau ymgysylltu. Cafodd ein gwaith ei wneud yn llwyr i baratoi datganiadau ariannol Cartrefi Cymunedol Cymru – Polisi ac Ymchwil Cyfyngedig a gyfer eich cymeradwyaeth a nodi'r materion hynny yr ydym wedi cytuno eu nodi i Fwrdd Cyfarwyddwyr Cartrefi Cymunedol Cymru – Polisi ac Ymchwil Cyfyngedig, fel corff, yn yr adroddiad hwn yn unol â Datganiad Technegol 076/16AAF ICAEW. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw Cartrefi Cymunedol Cymru – Polisi ac Ymchwil Cyfyngedig a'i Fwrdd Cyfarwyddwyr, fel corff, am ein gwaith nac am yr adroddiad hwn.

Eich dyletswydd chi yw sicrhau fod Cartrefi Cymunedol Cymru – Polisi ac Ymchwil Cyfyngedig wedi cadw cofnodion cyfrifeg digonol ac i baratoi datganiadau ariannol statudol sy'n rhoi golwg wir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol ac elw Cartrefi Cymunedol Cymru – Polisi ac Ymchwil Cyfyngedig. Rydych yn ystyried fod Cartrefi Cymunedol Cymru Polisi ac Ymchwil Cyfyngedig wedi ei eithrio o'r gofyniad archwilio statudol ar gyfer y flwyddyn.

Ni chawsom ein cyfarwyddo i gynnal archwiliad nac adolygiad o ddatganiadau ariannol Cartrefi Cymunedol Cymru - Polisi ac Ymchwil Cyfyngedig. Oherwydd hynny, nid ydym wedi dilysu bod y cofnodion cyfrifeg na'r wybodaeth ac esboniadau y gwnaethoch eu rhoi i ni yn gywir nac yn gyflawn ac nid ydym, felly, yn mynegi unrhyw farn ar y datganiadau ariannol statudol.



Bevan Buckland LLP
Llawr Daear Cardigan House
Castle Court
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

Dyddiad: 20 Hydref 2025

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU – POLISI AC YMCHWIL CYFYNGEDIG**

**CYFRIF ELW A CHOLLED MANWL AM Y FLWYDDYN DDIWEDDODD 3 MAWRTH 2025**

| | 2025 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Gwerthiant** | | 86,762 | | 56,153 |
| **Gwariant** | | | | |
| Costau hyfforddiant | - | | 6,571 | |
| Ailgodi CHC | 54,072 | | 45,816 | |
| Costau cyfrifiadurol | 345 | | 366 | |
| Cyfrifeg | 330 | | - | |
| Ffioedd cyfreithiol | 69 | | - | |
| | | 54,816 | | 52,753 |
| | | 31,946 | | 3,400 |
| **Costau cyllid** | | | | |
| Taliadau banc | | 44 | | 3 |
| **ELW NET** | | 31,902 | | 3,397 |

Nid yw'r dudalen hon yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol statudol